# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 2 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL YR EITEM** | Datganiad Cyngor Gwynedd Ynghylch Hybu Amrywiaeth Mewn Democratiaeth |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ynghyd â'r Rhaglen Waith. |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Ian Jones – Pennaeth Democratiaeth |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Argymhellir i'r Cyngor Llawn fabwysiadu y Datganiad Amrywiaeth Mewn Democratiaeth ar ei newydd wedd ynghyd â'r rhaglen waith i gefnogi gweithredu ar y datganiad.

**2. CEFNDIR A RHESYMEG**

**Rhagair**

3. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gefnogol i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth, gyda nifer o gamau wedi eu cymryd dros y blynyddoedd i geisio annog mwy o bobl o amrywiol gefndiroedd i sefyll mewn etholiadau.

4. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 7fed o Hydref, 2021 bu i Gyngor Gwynedd fabwysiadu Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth – gan ddatgan yn glir a chyhoeddus ein ymrwymiad ni yma yng Ngwynedd.

5. Gydag etholiadau Llywodraeth Leol Cymru ar y gweill ym mis Mai 2027, mae'n amserol adolygu'r datganiad cyhoeddus fod Cyngor Gwynedd yn hybu a hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth. Er nad yw'n ofyn statudol rydym yn grediniol fod aelodau etholedig cyfredol Cyngor Gwynedd yn awyddus i sicrhau cynrychiolaeth deg o'r gymdeithas yng Ngwynedd i sefyll yn yr etholiadau ac felly'n annog unigolion o bob cefndir i wneud hynny.

6. Mae adolygiad o'r datganiad yn **atodiad 1.** Nid oes newid sylweddol yn y datganiad, namyn mân ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. Fodd

bynnag, mae'n bwysig ein bod yn ail ddatgan ein ymrwymiad i hybu amrywiaeth mewn democratiaeth cyn etholiad Llywodraeth Leol 2027.

7. Mae **atodiad 2** yn cynnwys rhaglen waith i sicrhau fod y Cyngor yn cymryd camau penodol i geisio hybu amrywiaeth mewn democratiaeth a gwireddu'r datganiad uchod.

8. Gofynnir felly i'r Cyngor Llawn fabwysiadu y Datganiad Amrywiaeth Mewn Democratiaeth (ar ei newydd wedd) ynghyd â'r rhaglen waith i gefnogi gweithredu ar y datganiad.

**9. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd y datganiad ar ffurf drafft i Bwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth y Cyngor ar 16/06/2026 a derbyniwyd sylwadau cefnogol i'r datganiad a'r rhaglen waith, gan argymell y datganiad i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu.

**SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**
Fel y nodir yn y cynllun gwaith bydd timau y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyfrannu at a chefnogi y gwaith yma tuag at etholiad 2027.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.